WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol? – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 585A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Rachel Harries, Allison Rees a Gareth Jones, Non Jenkins fel rheolwr y rhaglen waith a'r cyfan o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, ac mae'r swyddogaeth honno'n derbyn cefnogaeth dda gan swyddogion. Fodd bynnag, bydd y swyddogaeth mewn sefyllfa well i ymateb i heriau'r dyfodol o gadarnhau rolau a chryfhau’r modd y caiff gwaith ei gynllunio.


Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi craffu, ac mae presenoldeb yr aelodau mewn cyfarfodydd pwyllgor wedi gwella, er bod rhywfaint o ddryswch ynghylch rôl Aelodau Gweithredol, a byddai aelodau craffu yn elwa ar dderbyn gwybodaeth fwy cynhwysfawr 6

Mae cyfarfodydd pwyllgorau craffu yn cael eu cynnal yn dda ond byddai cynllunio gwaith mewn modd amserol a gwell ffocws wrth wneud hynny o gymorth i sicrhau bod effaith pwyllgorau yn fwy cyson 7

Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i fonitro effaith gweithgarwch craffu, ond nid yw'r effeithiau bob amser yn glir 10

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol 12

Atodiad 2 – argymhellion o'r adroddiad ar astudiaeth gwella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol, 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014) 14

# Adroddiad manwl

## Crynodeb

1 Bu'r adolygiad hwn yn archwilio pa mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw swyddogaethau craffu pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Buom yn ystyried sut mae cynghorau'n ymateb i heriau cyfredol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf LlCD) mewn perthynas â'u gweithgarwch craffu, yn ogystal â'r modd y mae cynghorau'n dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Buom hefyd yn archwilio pa mor dda yw sefyllfa'r cynghorau o ran eu gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol, fel pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r newid posibl tuag at fwy o waith rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Yn rhan o'r adolygiad hwn, buom hefyd yn adolygu cynnydd y cynghorau wrth ymdrin ag argymhellion ein Hastudiaeth Gwella Genedlaethol gynharach **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Buom hefyd ar drywydd y cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i'r swyddogaeth craffu ac a gyhoeddwyd gennym mewn adroddiadau lleol, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd i gynghorau yn rhan o'n hadolygiadau thematig yn 2016-17, sef Cynllunio Arbedion a Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- nodi ffyrdd o ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu, yn sail ar gyfer rhannu arferion a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn perthynas â Deddf LlCD;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau'r presennol a'r dyfodol;
- helpu i ymwreiddio trefniadau craffu effeithiol gan aelodau etholedig o gychwyn y cylch etholiadol newydd; a
- rhoi syniad o'r graddau y mae cynghorau wedi llwyddo i ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu flaenorol.

4 Er mwyn llywio ein canfyddiadau, seiliwyd ein methodoleg adolygu ar Ganlyniadau a Nodweddion Trosolwg a Chraffu Effeithiol mewn Llywodraeth Leol, a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt â rhanddeiliaid ym maes craffu yng Nghymru, yn dilyn ein Hastudiaeth Gwella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (gweler Atodiad 1).

5 Ym mis Ionawr 2018, cynhaliom waith maes ar gyfer yr adolygiad hwn er mwyn deall beth oedd trefniadau craffu cyfredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor), ac yn enwedig sut mae'r Cyngor yn mynd ati i ymateb i'r heriau a nodwyd uchod, a sut mae'n bwriadu gwneud hynny.

6 Daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn gwerthfawrogi ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, a bod y swyddogaeth honno'n derbyn cefnogaeth dda gan swyddogion. Fodd bynnag, bydd y swyddogaeth mewn sefyllfa well i ymateb i heriau'r dyfodol o gadarnhau rolau a chryfhau'r modd y caiff gwaith ei gynllunio. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi craffu, ac mae presenoldeb yr aelodau mewn cyfarfodydd pwyllgor wedi gwella, er bod rhywfaint o ddryswch ynghylch rôl Aelodau Gweithredol, a byddai aelodau craffu yn elwa ar dderbyn gwybodaeth fwy cynhwysfawr;
b. Cynhelir cyfarfodydd craffu yn dda ond byddai cynllunio gwaith mewn modd amserol a gwell ffocws wrth wneud hynny o gymorth i sicrhau bod pwyllgorau'n fwy cyson eu dylanwad; ac
c. Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i fonitro effaith gweithgarwch craffu, ond nid yw'r effeithiau bob amser yn glir.

# Cynigion ar gyfer gwella

7 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion o ran sut y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu er mwyn iddo fod mewn sefyllfa well i wynebu heriau cyfredol a heriau'r dyfodol.

Dangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod gwaith y pwyllgorau trosolwg a chraffu a'r Cabinet yn cael ei gydgysylltu'n well drwy:<br>a) Gadarnhau rôl aelodau Cabinet ar bwyllgorau trosolwg a chraffu<br>b) Alinio rhaglenni waith y pwyllgorau trosolwg a chraffu yn agosach â'r Cabinet fel bo modd i'r pwyllgorau gael mwy o effaith wrth ystyried penderfyniadau a pholisïau arfaethedig. |
| C2 | Dylai pwyllgorau trosolwg a chraffu sicrhau y rhoddir ystyriaeth weithredol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan o'u dull o gyflawni gweithgarwch craffu. |
| C3 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod gan aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu fynediad at wybodaeth gynhwysfawr ac amserol wrth gyflawni gweithgarwch craffu. |
| C4 | Dylai'r Cyngor roi trefniadau ar waith i gynnal asesiad cliriach o effeithiolrwydd ac effaith gweithgarwch trosolwg a chraffu. |

# Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ei swyddogaeth trosolwg a chraffu, ac mae'r swyddogaeth honno'n derbyn cefnogaeth dda gan swyddogion. Fodd bynnag, bydd y swyddogaeth mewn sefyllfa well i ymateb i heriau'r dyfodol o gadarnhau rolau a chryfhau’r modd y caiff gwaith ei gynllunio

## Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi craffu, ac mae presenoldeb yr aelodau mewn cyfarfodydd pwyllgor wedi gwella, er bod rhywfaint o ddryswch ynghylch rôl Aelodau Gweithredol, a byddai aelodau craffu yn elwa ar dderbyn gwybodaeth fwy cynhwysfawr

8 Clywsom yn gyson gan yr aelodau a'r swyddogion fod y swyddogaeth craffu yn cael ei gwerthfawrogi a bod iddi ran bwysig ym mhroses benderfynu'r Cyngor.

9 Mae presenoldeb yr aelodau mewn cyfarfodydd, fu'n broblem cyn etholiad 2017, wedi gwella. Mae hyn yn galonogol, yn enwedig o ystyried bod traean o Aelodau cyfredol y Cyngor wedi'u hethol i'r Cyngor am y tro cyntaf yn 2017.

10 Darparodd y Cyngor hyfforddiant cynefino, gan gynnwys hyfforddiant i aelodau craffu, ac fe gafodd hyn dderbyniad da gan yr aelodau ar y cyfan. Cynigiwyd pob sesiwn ddwywaith, am 10am neu 5pm, er mwyn sicrhau bod aelodau a chanddynt ymrwymiadau eraill yn cael cyfle i fod yn bresennol. Nododd yr Aelodau fod angen hyfforddiant pellach arnynt ar sgiliau craffu ac, ym mis Ionawr 2018, fe gomisiynodd y Cyngor hyfforddiant ychwanegol i'r holl aelodau anweithredol ac i gadeiryddion y pwyllgorau craffu.

11 Yn seminarau wythnosol y Cyngor bydd yr aelodau'n derbyn gwybodaeth am ystod o bynciau a ystyriwyd yn berthnasol gan yr aelodau i'r gwaith craffu sydd ar ddod.

12 Mae gan yr aelodau gefnogaeth neilltuol gan swyddogion craffu o dîm sydd hefyd yn cefnogi prosesau perfformiad a gwelliant y Cyngor. Gwelsom fod gan yr aelodau farn gadarnhaol ynghylch trefniadau'r swyddogion cefnogi craffu.

13 Mae aelodau craffu'n cymryd rhan yn y broses o bennu'r gyllideb drwy Weithdy Cyllideb blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trawsbynciol Adnoddau a Busnes, ac mae ganddynt farn gadarnhaol ynghylch hynny. Fodd bynnag, gallai'r aelodau dderbyn gwybodaeth fwy perthnasol er mwyn gallu craffu'n fwy effeithiol ar gynigion y gyllideb. Er enghraifft, yng Ngweithdy'r Gyllideb y buom yn ei arsylwi ym mis Ionawr 2018, ni dderbyniodd yr aelodau yr asesiadau llesiant yr oedd swyddogion wedi'u paratoi i gyd-fynd â'r cynigion arbed. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfle i aelodau craffu ystyried yr effaith a ddisgwylir yn sgil cynigion unigol ar gyfer y gyllideb, ac i edrych ar y gyllideb mewn modd cyfannol.

14 Gellid darparu cyfanswm cyllideb pob cyfarwyddiaeth i'r aelodau, fel eu bod yn gallu ystyried arwyddocâd cymharol gwahanol gynigion ar sail yr wybodaeth lawn. Byddai hyn o gymorth i liniaru'r risg bod aelodau'n treulio llawer o'u hamser yn ystyried cynigion a chanddynt gostau cymharol isel. Er enghraifft, treuliodd yr aelodau amser hir yn trafod cynnig £35k i roi'r gorau i ddarparu bagiau cadi bwyd. Prin iawn fu'r drafodaeth, fodd bynnag, ar gynnig arall (gan nad oedd y manylion wedi'u datblygu'n llawn), sef cyflawni £397k o arbedion a oedd wedi'u nodi ond heb eu cyflawni yn 2017-18.

15 Yng Ngweithdy'r Gyllideb, dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'n rhaid iddynt gynnig dull arall o arbed yr arian dan sylw os oeddent yn anghytuno â chynnig neilltuol i arbed. Gwelsom fod yr aelodau'n gwrthod nifer fach o'r cynigion arbed, ond nad oeddent yn awgrymu unrhyw ffyrdd eraill o ariannu'r cynigion hynny. Gallai'r Cyngor wneud mwy i sicrhau bod yr aelodau'n derbyn yr wybodaeth angenrheidiol, fel ystod o opsiynau a fyddai'n galluogi iddynt herio'n well a chynnig ffyrdd eraill o gyflawni'r arbedion a gynigir.

16 Dim ond drwy wahoddiad y bydd aelodau Gweithrediaeth y Cyngor (y Cabinet) yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu, ond yn ymarferol ni fyddant bob amser yn derbyn gwahoddiad. Deellir bod aelodau'r Weithrediaeth yn cael gwahoddiad 'fel eithriad', ac nad yw'r pwyllgorau craffu yn eu dwyn i gyfrif yn rheolaidd. O ganlyniad i hyn bydd swyddogion fel arfer yn cael eu holi ynghylch materion y mae aelodau'r Weithrediaeth yn gyfrifol amdanynt, fel penderfyniadau, polisïau neu berfformiad gwasanaethau.[1] Mae hyn yn drysu atebolrwydd. Mae hyn hefyd yn awgrymu bod angen i'r Cyngor sicrhau bod aelodau'r Cabinet a'r pwyllgorau craffu a swyddogion y Cyngor yn deall ac yn chwarae eu rhannau perthynol yn rhan o'r broses graffu.

## Mae cyfarfodydd pwyllgorau craffu yn cael eu cynnal yn dda ond byddai cynllunio gwaith mewn modd amserol a gwell ffocws wrth wneud hynny o gymorth i sicrhau bod effaith pwyllgorau yn fwy cyson

17 Mae gan y Cyngor broses flynyddol ar waith i ganfod testunau i'w hystyried gan bwyllgorau craffu. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r ymarfer blynyddol hwn, nid yw'n glir pa feini prawf a ddefnyddir gan bwyllgorau i benderfynu a ddylid ystyried eitem ai peidio.

[1] "Mae'r pwyllgorau trosolygu a chraffu yn gallu ei gwneud yn ofynnol i swyddogion fod yn bresennol i ateb cwestiynau am gyflwyno swyddogaethau gweithredol neu swyddogaethau eraill a'i drafod. " Dylai'r weithrediaeth a'r pwyllgorau trosolygu a chraffu gadw mewn cof bob amser mai mater i'r weithrediaeth etholedig yw ateb cwestiynau am ei pholisïau a'i phenderfyniadau. Pan fydd swyddogion yn ymddangos i ateb cwestiynau, dylai eu cyfraniad hwythau gael ei gyfyngu cyn belled â phosibl i gwestiynau ynghylch ffeithiau ac esboniadau ynghylch polisïau a phenderfyniadau...." Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Canllawiau i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref sirol yng Nghymru ar Drefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen 2006, Gorffennaf 2006, Paragraff 2.44.

18 Er mwyn cynllunio gweithgarwch pwyllgorau craffu am y flwyddyn, bydd pob pwyllgor yn cymryd rhan mewn ymarfer 'gweledigaeth' blynyddol i gytuno ar yr eitemau y dylid craffu arnynt yn y flwyddyn sydd i ddod. Bryd hynny, ni phennir dyddiad cyfarfod penodol i drafod y testunau a ddewisir. Mae'r Cyngor yn galw'r rhestr hon yn 'fasged' o faterion y pwyllgor.

19 Ar ddiwedd pob cyfarfod pwyllgor craffu, bydd yr eitem ar gyfer agenda y cyfarfod nesaf yn cael ei dewis o'r fasged'. Gan mai ond un eitem a drafodir ym mhob cyfarfod fel arfer, ni fydd pob pwyllgor fel arfer yn ystyried mwy na saith eitem yn ystod y flwyddyn. Mae'r dull yma o weithredu yn golygu bod y pwyllgor yn cael cyfle i ganolbwyntio ar yr eitem unigol sydd dan ystyriaeth, ond yn cyfyngu ar nifer y materion y gall y swyddogaeth craffu roi blaenoriaeth i'w hystyried yn flynyddol.

20 Nid yw'r cysylltiadau rhwng y rhaglen waith craffu a gwaith ehangach y Cyngor ac aelodau'r Weithrediaeth yn glir iawn. Ar hyn o bryd, bydd pob aelod Gweithredol yn cyhoeddi blaenraglen waith ar wahân. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn cyhoeddi blaenraglen waith gyffredinol a chyfun i'r Cabinet. Gallai'r Cyngor ystyried cyhoeddi blaenraglen waith integredig fel ei bod hi'n haws i aelodau craffu ac aelodau eraill, aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid ddeall pryd y bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniadau. Gallai'r pwyllgorau craffu wedyn ddefnyddio'r wybodaeth honno i ystyried pa adeg fyddai orau i ystyried materion cyn penderfyniadau'r Cabinet.

21 O beidio ystyried cyfleoedd i alinio rhaglenni gwaith y pwyllgorau craffu a'r cabinet, ceir risg na fydd y swyddogaeth craffu bob amser yn cyfrannu at y broses benderfynu a llunio polisi ar yr amser gorau i gael y dylanwad mwyaf ar ddatblygiad polisi a phenderfyniadau, er mwyn cael y mwyaf o effaith. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2017, bu'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Glanach yn ystyried llunio Strategaeth Coed Torfaen. Yn yr adroddiad a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor, nodwyd yn glir mai pwrpas y cyfarfod oedd cynorthwyo i ddatblygu polisi yn hytrach na chraffu ar y strategaeth arfaethedig, gan nad oedd unrhyw strategaeth wedi'i drafftio eto. Er bod cynorthwyo i ddatblygu polisi yn weithgarwch priodol i'w gyflawni gan y pwyllgor craffu, nid oedd y maes gwasanaeth wedi pennu graddfa amser ar gyfer llunio strategaeth, ac nid oedd dyddiad wedi'i drefnu i'r Cabinet wneud penderfyniad ynghylch y mater. Gan hynny, nid oedd yn glir pam bod y pwyllgor craffu wedi rhoi'r flaenoriaeth i ystyried hyn yn y cyfarfod neilltuol hwn, nac ychwaith sut y gallai'r Pwyllgor fod wedi effeithio ar ddatblygiad y polisi.

22 Bu'r un Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth Gwastraff ym mis Chwefror 2018. Unwaith eto, roedd y Pwyllgor yn ymwneud â'r mater cyn i ddogfen y strategaeth gael ei llunio. Cyflwynwyd cyfres o opsiynau gerbron y Pwyllgor, ond gan mai ond megis dechrau oedd y gwaith nid oedd y costau wedi'u cyfrifo nac asesiad effaith wedi'i gynnal ar gyfer yr un o'r opsiynau hynny. Felly, mynegodd y pwyllgor farn ar yr opsiynau yr oeddent yn eu ffafrio ond nid oedd hynny'n seiliedig ar unrhyw ddata, tystiolaeth nac arfarniad cytbwys o bob opsiwn.

23 Yn ôl Canllawiau Craffu'r Cyngor 'rhagwelir y bydd y Cadeiryddion (craffu) yn cyfarfod yn rheolaidd â'u Haelod(au) Gweithredol perthynol' er mwyn cyfnewid safbwyntiau a gwybodaeth am y maes gwasanaeth a thrafod penderfyniadau a pholisïau a allai

effeithio ar raglen waith  pwyllgor craffu. Yn ymarferol, mae'r darlun yn gymysg gyda rhai chadeiryddion Craffu wedi cwrdd â'u Haelod Gweithredol ac eraill heb wneud hynny. Pwysleisiodd Cadeiryddion ac Aelodau Gweithredol wrthym nad oedd unrhyw rwystr yn hyn o beth, a bod Cadeiryddion yn teimlo eu bod yn gallu cysylltu â swyddogion ac aelodau gweithredol os oedd angen.

24 Clywsom gan yr aelodau Gweithredol nad oeddent am ddylanwadu'n ormodol ar raglenni gwaith y pwyllgorau craffu am eu bod yn gwerthfawrogi natur annibynnol y pwyllgorau hynny. Ein barn ni yw bod y diwylliant a'r trefniadau yn Nhorfaen yn ddigon aeddfed i sicrhau na fydd trafodaethau o'r fath rhwng Cadeiryddion Craffu a'r aelod Gweithredol yn tanseilio annibyniaeth y swyddogaeth craffu.

25 At ei gilydd, roedd y cyfarfodydd pwyllgor craffu y buom yn eu harsylwi wedi'u trefnu'n dda. Roedd yr Aelodau wedi cynllunio eu cwestiynau mewn cyn-gyfarfod, a oedd fel arfer yn cael ei gynnal cyn y cyfarfod, a hefyd wedi gofyn cwestiynau ychwanegol ac atodol. Ar ddiwedd pob cyfarfod, ar ôl i'r gwahoddedigion adael, cymerodd y pwyllgorau amser i drafod a llunio argymhellion a oedd yn sicrhau allbwn clir o'r cyfarfodydd.

26 Er bod cyfarfodydd y pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi'u trefnu'n dda, gwelsom fod cyfle i'r pwyllgorau roi mwy o ystyriaeth i'r modd y maent yn dewis craffu ar destunau, a'r modd y gallent gasglu tystiolaeth o ystod o ffynonellau, i gryfhau'r dystiolaeth sy'n sail i'w canfyddiadau. Yn gyffredin â nifer o swyddogaethau craffu ledled Cymru, mae gweithgarwch craffu yn Nhorfaen wedi'i gynnwys i raddau helaeth mewn cyfarfodydd pwyllgor, a'r dull o graffu yw derbyn adroddiad gan swyddog ar bob eitem. Clywsom gan yr aelodau am achosion yn y gorffennol lle bu llygaid-dystion arbenigol yn bresennol mewn cyfarfodydd pwyllgor, a gwelsom lygad-dyst arbenigol yn bresennol mewn un cyfarfod. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod rhai aelodau wedi edrych ar ffynonellau eraill yn sail i'w cwestiynau yn ogystal â'r papurau a oedd wedi'u darparu, ond nid yw pwyllgorau craffu bob amser yn ystyried dulliau eraill o gasglu tystiolaeth.

27 Gwelsom fod cyfarfodydd pwyllgor craffu yn derbyn cyhoeddusrwydd ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, a bod detholiad o sylwadau gan y cyhoedd wedyn yn cael eu darllen yn uchel yng nghyfarfod y pwyllgor perthnasol. Mae'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan o waith y pwyllgor craffu yn arbennig o gadarnhaol, a gallai'r Cyngor ystyried sut i wneud defnydd mwy effeithiol o sylwadau'r cyhoedd yn ei drafodaethau, ac wrth lunio argymhellion.
Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cynnwys y cyhoedd yn y broses graffu yn faes i'w ddatblygu, ac yn ystyried sut y gallai wneud defnydd gwell o'r panel dinasyddion y mae wedi'i sefydlu.

28 Dylai'r Cyngor ystyried sut y gallai pwyllgorau craffu gynnal deialog ehangach â chymunedau lleol, gan gynnwys dewis testunau, ac er mwyn cael safbwyntiau o'r tu allan i gyfarfodydd pwyllgor.

## Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i fonitro effaith gweithgarwch craffu, ond nid yw'r effeithiau bob amser yn glir.

29 Yn dilyn ein hastudiaeth Craffu Da? Cwestiwn Da!, datblygodd y Cyngor gynllun gweithredu ar gyfer Gwella a adroddwyd gerbron ei Bwyllgor Archwilio. Ym mis Ionawr 2016, cytunodd y Pwyllgor Archwilio fod y camau yn y cynllun wedi'u cwblhau ac nad oedd angen adrodd ymhellach. Mae'r Cyngor yn parhau i nodi ac ymdrin mewn modd rhagweithiol â gwelliannau graddol i'r swyddogaeth craffu, ond gallai'r Cyngor ystyried cynnal gwerthusiad mewnol eang o effeithiolrwydd y swyddogaeth craffu er mwyn gwerthuso ei barodrwydd i wynebu heriau'r dyfodol.

30 Bydd cadeiryddion craffu yn llunio adroddiad blynyddol sy'n rhoi trosolwg o waith pob pwyllgor. Gallai'r adroddiad roi darlun gwell o effaith pob Pwyllgor, yn ogystal â materion yn y dyfodol a meysydd i'w datblygu y gallai'r Pwyllgor eu hystyried yn angenrheidiol.

31 Yng nghynllun Tîm Gwella a Chraffu'r Cyngor ar gyfer 2018-19, nodir y bydd y Cyngor yn hyfforddi a chefnogi'r aelodau ac awduron adroddiadau er mwyn datblygu trefniadau craffu ac y byddant yn cynorthwyo'r Cadeiryddion Craffu i lunio'r adroddiad craffu blynyddol. Nodir hefyd yn y cynllun y bydd y tîm yn cyflwyno mesurau perfformiad newydd, fel canran yr argymhellion Craffu y gweithredwyd yn eu sgil ac a dderbyniwyd gan y Cabinet/Cyngor, a chanran yr aelodau craffu sy'n teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y tîm craffu. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r Cyngor roi amlinelliad o'r modd y mae'n bwriadu defnyddio'r mesurau perfformiad newydd i ddylanwadu ar arferion cyfredol neu newidiadau yn y dyfodol, neu i wella'r swyddogaeth craffu a'i heffaith.

32 Bu modd i'r Cyngor roi enghreifftiau i ni lle'r oedd y pwyllgorau trosolwg a chraffu wedi cael effaith. Clywsom gan aelodau a swyddogion fod yr is-bwyllgor monitro safonau ysgolion, lle caiff y pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr wahoddiad i drafod perfformiad eu hysgol, yn cael effaith gadarnhaol. Clywsom hefyd fod y swyddogaeth craffu wedi cymryd rhan yn y broses benderfynu i gyflwyno biniau cul, a chanlyniad hynny oedd gweithredu newid a allai fod wedi bod yn amhoblogaidd yn gymharol ddi-drafferth.

33 Fodd bynnag, gallai effaith gweithgarwch craffu fod yn fwy eglur. Er enghraifft, gwelsom achos lle nad oedd sicrwydd beth oedd diben craffu ar eitem gan mai ychydig o reolaeth a oedd gan y Cyngor dros bolisi a oedd yn bolisi cenedlaethol. Gan hynny, ychydig iawn o effaith yr oedd yn gallu ei chael wrth ystyried y mater. Fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, gwelsom hefyd ddau achos lle'r oedd hi'n ymddangos bod rôl y pwyllgorau craffu yn aneglur, gan fod y pwyllgorau'n cymryd rhan yng nghyfnod cynnar y broses o ddatblygu polisi. Ychydig iawn o gynigion pendant a oedd ar gael iddynt felly i'w hystyried a'u gwerthuso, ac roedd hynny'n lleihau eu heffaith.

34 Mae gan y pwyllgorau trosolwg a chraffu broses sydd wedi'i sefydlu a'i hymwreiddio'n dda i fynd ar drywydd argymhellion. Gwneir hynny ar ffurf adroddiad effaith i bob pwyllgor, a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol. Ni chaiff argymhelliad ond ei dynnu o'r

adroddiad pan fydd wedi'i weithredu'n llawn a phan fydd effaith yr argymhelliad hwnnw wedi'i hasesu.

35 Yn yr adroddiadau effaith ceir enghreifftiau cadarnhaol o argymhellion clir yr ymdriniwyd â hwy'n llwyddiannus. Fodd bynnag, gallai'r adroddiad fod yn fanylach wrth drafod y canlyniadau sy'n deillio o argymhellion craffu, a gallai sicrhau cyswllt clir rhwng y gweithrediadau a ddisgrifir yn yr adroddiad a'r argymhellion.

36 Yn aml, bydd swyddogaeth craffu yn cael ei chynnwys yn y broses benderfynu yn rhan o raglen o newid ehangach, felly mae hi fel arfer yn anodd iddi nodi pa ganlyniadau sydd yn deillio'n benodol o fewnbwn ac ymyrraeth y swyddogaeth craffu. Er bod adroddiadau effaith craffu'r Cyngor yn disgrifio newidiadau i wasanaethau, gallai'r Cyngor gyfeirio'n gliriach at effaith y newidiadau hynny ar ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn helpu i wella'r sefyllfa hon.

37 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr heriau posibl o flaen y swyddogaeth craffu yn y dyfodol, gan gynnwys y posibilrwydd o gynyddu gwaith rhanbarthol. Er enghraifft, roedd swyddogion yn ymwybodol o rai o'r heriau ymarferol a diwylliannol yn gysylltiedig â chraffu rhanbarthol. Mae'r swyddogion yn cydnabod y gallai fod angen i'w trefniadau newid dros amser, ond nid ydynt ar hyn o bryd mewn sefyllfa i allu gwneud y newidiadau hynny. Dylai'r Cyngor ystyried pa wersi defnyddiol y gallai eu dysgu o'i waith yn craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sail ar gyfer y newidiadau hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dal heb ei hymwreiddio'n llawn mewn gweithgarwch craffu.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol

Dangosyn 2: canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Wrth graffu'n dda, beth ydym ni'n ceisio'i gyflawni?** | **Beth fyddai'r nodweddion? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwasanaethau Gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae rôl y swyddogaeth craffu wedi'i diffinio'n glir ac yn cael ei gwerthfawrogi fel rhan o drefniadau'r cyngor ar gyfer gwella.<br>ii) Ceir swyddogion neilltuol i gefnogi craffu, sy'n gallu cyflawni gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, a darparu dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i aelodau Craffu.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Mae ymholiadau Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol, yn gadarn o ran methodoleg ac yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Yn rhan o'r broses trosolwg a chraffu bydd penderfynwyr a darparwyr gwasanaeth yn cael eu herio'n rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Bydd craffu yn cynnig ffyrdd ymarferol o ddatrys problemau cydnabyddedig sydd yn seiliedig ar dystiolaeth dda. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Wrth graffu'n dda, beth ydym ni'n ceisio'i gyflawni?** | **Beth fyddai'r nodweddion? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **2. Gwneir penderfyniadau democrataidd mewn modd atebol, cynhwysol a chadarn.**<br>**'Gwell penderfyniadau'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn derbyn y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol.<br>ii) Derbynnir cefnogaeth effeithiol ar gyfer y broses yn aml gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, sydd yn sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir i ddibenion craffu o ansawdd uchel, a'i bod yn cael ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Arweinir y swyddogaeth craffu gan yr Aelodau, ac mae ganddi berchnogaeth ar ei rhaglen waith, gan ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a chyrff rheoleiddio. Y mae'n taro cydbwysedd rhwng rhoi'r flaenoriaeth i bryderon yn y gymuned a materion ac iddynt risg a phwysigrwydd strategol.<br>iv) Gall rhanddeiliaid gyfrannu at ddatblygiad a chyflawniad blaenraglenni gwaith craffu.<br>v) Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu wedi'u cynllunio'n dda, wedi'u cadeirio'n effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.<br><br>**Effaith**<br>vi) Bydd Aelodau Anweithredol yn defnyddio tystiolaeth i sicrhau bod penderfyniadau'r Weithrediaeth yn gytbwys.<br>vii) Mae penderfynwyr yn rhoi cyfrif yn gyhoeddus am eu cyfrifoldebau portffolio mewn pwyllgorau craffu. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn dadl ddemocrataidd ynghylch cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn y presennol a'r dyfodol.** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae'r Weithrediaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod bod craffu yn ffordd bwysig i'r cyngor ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Ymarfer**<br>ii) Mae craffu yn cynnwys cyfathrebu effeithiol i godi ymwybyddiaeth ynghylch atebolrwydd democrataidd, ac annog pobl i gymryd rhan yn hynny.<br>iii) Mae craffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol, ac yn ymdrin yn effeithiol â materion gwleidyddol sensitif, tensiwn a gwrthdaro.<br>iv) Mae craffu yn meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae trosolwg a chraffu yn ei gwneud hi'n bosibl i glywed 'llais' pobl leol a chymunedau ar draws yr ardal yn rhan o'r prosesau penderfynu a llunio polisi. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o'r adroddiad ar astudiaeth gwella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol, 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014)

Dangosyn 3: argymhellion o’r Astudiaeth Gwella Craffu, **Craffu Da? Cwestiwn Da!**

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• rhoi rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a’r canlyniad a ddymunir; ac<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella’r Cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Lle bo'n briodol, sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbwn gweithgarwch craffu wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Trosolwg a Chraffu Cymru. | Cyngor |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth craffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun.: 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

e-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales